

Cydweithio gyda Newyddiadurwyr

Mae'r mwyafrif o newyddiadurwyr yn delio gyda nifero bynciau cyffredinol

Mae nifer o newyddiadurwyr yn gweithio ar ystod eang o straeon. Dim ond 'gohebwy'r arbenigol e.e. gohebydd Addysg, Gohebydd Iechyd, Gohebydd Gwleidyddol sy'n ymwybodol o bynciau penodol. Byddwch yn barod i esbonio cefndir sylfaenol.

Mae newyddiadurwyr angen cysylltiadau

Mae newyddiadurwyr yn dibynnu ar rwydwaith o bobl am wybodaeth a dyfyniadau. Mae newyddiadurwyr yn rhoi pwyslais ar gynnal y berthynas hon gyda'u cysylltiadau. Petai chi'n amharod i gyfrannu bydd newyddiadurwr yn ddiolchgar am eich cymorth i ddod o hyd i lefarydd arall. Cofiwch ofyn caniatâd y person hwnnw cyn trosglwyddo eu manylion i'r newyddiadurwr. Mae gan newyddiadurwyr amserlen gaeth - 'deadlines'

Mae newyddiadurwyr yn gweithio tuag at amserlen gaeth iawn. Bydd rhaid cwblhau stori o fewn 1-2 awr yn aml. Does dim pwynt siarad gyda newyddiadurwyr am 5y.h neu ar ddiwrnod cyhoeddi stori.

Mae newyddiadurwyr yn cael eu golygu

Mae gan newyddiadurwyr unigol lawer llai o reolaeth na'r disgwyl dros yr hyn y maen nhw'n sgwennu. Mae Golygyddion yn dweud wrth newyddiadurwyr pa ongl i'w chymryd ar stori a beth i'w sgwennu. Mae Is-Olygyddion yn golygu sgrïptiau a 'sgwennu penawdau.

Ydy newyddiadurwyr yn ddifeddwl ac an-sensitif?

Mae newyddiadurwyr sy'n paratoi stori negyddol yn llawer mwy tebygol o fod yn anwybodus a phrin o amser na rhagfarnlyd (oni bai ei fod yn benderfyniad golygyddol bwriadol). Bydd nifer yn newid ongl eu herthyglau ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol.

Mae newyddiadurwyr angen ymateb cyflym

Does dim pwynt dweud wrth newyddiadurwr y byddwch yn cysylltu nôl gyda nhw ar ôl i'r pwyllgor rheoli gwrrd i drafod y pwnc. Mae'n rhaid sicrhau bod eich llefarydd yn deall y pwnc yn drylwyr er mwyn medru ymateb cyn gynted â phosib i gais y newyddiadurwr.

Dysgwch siarad mewn 'sound bites'

Mae hi yn bosib symleiddio'r hyn yr ydych yn cyfleu mewn brawddegau bachog sy'n cyfleu a chrynhai'r neges. Sound Bites yw enw rhain.

Tony Blair - "Tough on crime, tough on the causes of crime"?

Newyddion Teledu neu Becynnau Radio – bydd eich cyfweiliad yn cael ei dorri i rai eiliadau 30 eiliad ar y mwyaf.

Bydd cyfweiliadau byw, rhaglenni dogfen a dadleuon cyhoeddus yn defnyddio llawer mwy o'ch sylwadau.

Peidiwch gwneud addewidion gwag - Ceisiwch gydweithio i ofynion y newyddiadurwr. Os nad yw hi'n bosib gwneud yr hyn mae'r newyddiadurwr yn ofyn, ymddiheurwch ac esbonio eich rhesymau.

Rheolaeth Olygyddol - Dyw hi ddim yn rheidrwydd ar newyddiadurwyr i adael i unrhyw un weld eitem cyn iddi gael ei darlledu neu ei phrintio. Er hynny mae hi yn bosib iddyn nhw ddatgelu pa ddyfyniadau fydd yn cael eu defnyddio.

Gwahodd newyddiadurwyr i ddigwyddiadau - Beth am wahodd newyddiadurwyr a ffotograffwyr i'ch digwyddiad? Cofiwch roi amlinelliad byr iddyn nhw a'r gwesteion eraill o'r hyn sy'n digwydd, a bod y wasg yn bresennol. Fe all eich gwesteion wrthod cyfweiliadau neu gael llun wedi ei dynnu.